

Cyfuno'ch Taliadau Uniongyrchol â phobl eraill

Taliadau Uniongyrchol – Eich Bywyd, Eich Dewis

Tachwedd 2019



**Beth mae cyfuno'ch
Taliadau Uniongyrchol â phobl
eraill yn ei olygu?**

3



**Ar gyfer beth allaf ddefnyddio
fy Nhaliadau Uniongyrchol Cyfun?**

4



**Enghreifftiau o sut y gellir
defnyddio Taliadau Uniongyrchol**

6



Mwy o wybodaeth

8

Beth mae cyfuno'ch Taliadau Uniongyrchol â phobl eraill yn ei olygu?



Mae cyfuno'ch Taliadau Uniongyrchol yn golygu'ch bod yn ychwanegu rhywfaint o'ch Taliadau Uniongyrchol neu'r cyfan ohono at arian sy'n perthyn i bobl eraill.



Trwy gyfuno'ch arian gydag arian rhywun arall rydych yn rhannu costau pethau yr ydych yn talu amdanynt.



Gallwch arbed ariad drwy wneud hyn.



Efallai y byddwch yn gallu gwneud pethau gyda'ch gilydd na fydddech yn gallu fforddio eu gwneud ar eich pen eich hun.

Ar gyfer beth allaf ddefnyddio fy Nhaliadau Uniongyrchol Cyfun?

Dyma rai ffyrdd o wario'ch Taliadau Uniongyrchol cyfun. Gallech ei wario ar:



Cael Cynorthwy-ydd Personol –
Cynorthwy-ydd Personol yw rhywun sy'n eich helpu



Gall hyn gynnwys gwneud pethau fel siopa a choginio, neu'ch helpu i fynd allan a gwneud pethau.



Byddech yn rhannu'ch Cynorthwy-ydd Personol gyda'r bobl yr ydych wedi cyfuno arian â nhw.





Sefydlu clwb ar gyfer diddordeb yr ydych i gyd yn ei hoffi neu sefydlu grŵp cymdeithasol

Gallech:



- Logi ystafell
- Talu rhywun i'ch cynorthwyo i gyrraedd yno
- Talu rhywun i'ch helpu tra'r ydych yno.
- Talu am offer neu ddeunyddiau



Dewisiadau eraill yn lle gwasanaethau dydd – Efallai y byddwch am gyfuno'ch taliadau uniongyrchol â phobl eraill i wneud rhywbeth y mae gennych i gyd ddiddordeb ynddo, neu hyd yn oed i ddechrau'ch menter eich hun?



Dewisiadau eraill yn lle gofal seibiant – efallai yr hoffech gyfuno'ch taliadau uniongyrchol â phobl yr ydych yn eu hadnabod i drefnu'ch gofal seibiant mewn ffordd wahanol.

Enghreiffiau



Stori Anne a Jane

Mae Anne a Jane yn ffrindiau da ac yn byw gyda'i gilydd. Mae angen help arnyn nhw i wneud:

- Gofal Personol
- Coginio
- Tasgau o amgylch y tŷ




Mae Anne a Jane yn cyfuno eu taliadau uniongyrchol i dalu am y cymorth sydd ei angen arnyn nhw. Maen nhw'n cyflogi Cynorthwy-ydd Personol i'w helpu.



John a'i ffrindiau

Mae gan John a'i ffrindiau ddiddordeb mewn garddio, felly yn hytrach na mynd i'r ganolfan ddydd leol, maen nhw'n cyfuno eu harian a bellach yn gweithio ar eu rhandir eu hunain gyda chymorth.



Maen nhw wedi cyfarfod â llawer o bobl newydd ac yn gallu gwneud mwy drostyn nhw eu hunain nawr. Maen nhw'n gwerthu eu cynnyrch mewn marchnad ffermwyr leol.

Laura a'i ffrindiau


Mae Laura a'i ffrindiau'n hoffi creu cerddoriaeth.



Maen nhw am gyfarfod a chwarae unwaith yr wythnos yn eu band eu hunain.



Mae nhw wedi penderfynu cyfuno rhywfaint o'u taliadau uniongyrchol i dalu am logi ystafell mewn clwb lleol, a thalu am gymorth gan gerddor tra maen nhw yno.



Mae nhw'n gobeithio chwarae 'gigs' pan fyddan nhw'n ddigon da

Mwy o wybodaeth

I ganfod mwy



Gallwch ganfod mwy o wybodaeth am gyfuno'ch taliadau uniongyrchol drwy siarad â Mark Cooper:



Rhif ffôn: 01352 701101

E-bost: mark_cooper@flintshire.gov.uk

neu,

Gallwch siarad â rhywun o Ymddiriedolaeth Penderels:

Rhif ffôn: 01352 706235

E-bost: ekershaw@penderelstrust.org.uk

ddavies@penderelstrust.org.uk



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. Cysylltwch â 03000 858 858 i gael fersiwn Saesneg.

This document is available in English. Please contact 03000 858 858 for an English version.